

No.

PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 14 Chwefror, 2023.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S.D. Perkes (Cadeirydd); Cynghorydd J. Aviet (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, P. Drake, A.M. Ernest, M.J. Hooper, E. Penn, I.A.N. Perry a S.T. Wiliam.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr A. Asbrey, R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg), G. Bruce, I. Buckley, L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau), S. Campbell, M. Cowpe, C.P. Franks, E. Goodjohn, S.J. Haines, W.A. Hennessy, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), Dr. I.J. Johnson, B. Loveluck-Edwards, C. Stallard, M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu) and N.J. Wood.

717 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

718 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ionawr, 2023 fel cofnod cywir.

719 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

720 NEWIDIADAU I'R GWASANAETH AILGYLCHU A RHEOLI GWASTRAFF 2023/24 (CYF) –

Cafodd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 19 Ionawr 2023 ei gyflwyno gan y Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Cymdogaeth.

Dywedwyd bod llawer o heriau ariannol difrifol yn wynebu'r adran Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth, yn union fel yr oedd ar gyfer gwasanaethau eraill ar

No.

draws y Cyngor. O ganlyniad, roedd yn rhaid i'r gwasanaeth wneud penderfyniadau anodd o ran y gwasanaethau yr oedd yn eu darparu, yn ogystal â sicrhau bod darpariaeth unrhyw wasanaethau anstatudol, megis casglu gwastraff gwyrdd, yn cyfrannu at gost eu cyflawni. Yn ogystal, roedd angen newid ymddygiad a chyfranogiad mwy gan bob cartref i gyrraedd y targedau gwastraff uchelgeisiol a osodwyd hyd at 2050.

Felly, penderfynwyd bod angen symleiddio casgliadau o garreg y drws er mwyn sicrhau bod y Gwasanaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff yn aros o fewn y gyllideb ddiwygiedig a osodwyd ar gyfer 2023/24 ac yn cyrraedd y targed arbedion o £650,000.

Cynigiwyd gwneud nifer o newidiadau i gasgliadau gwastraff, gan gynnwys:

- Cyflwyno tâl tanysgrifio o 1 Gorffennaf ar gyfer casglu gwastraff gwyrdd.
- Byddai'r ffi tanysgrifio ar gyfer gwastraff gwyrdd yn cynnwys tâl o £36 y flwyddyn am hyd at bedwar bag bob pythefnos, a £54 am wyth bag (o fewn 72 awr).
- Roedd darpariaeth hefyd ar gyfer casgliadau untro unigol o 50c y bag i'r tanysgrifwyr gwastraff gwyrdd, a byddai tâl hanner blwyddyn ar gael o fis Awst 2024.
- Byddai gan ddeiliaid tai gyfle o hyd i fynd â'u gwastraff gwyrdd i Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi'r Cyngor.
- Newid i amllder casglu bagiau du i dri bag a gesglir bob tair wythnos.

Gwnaeth y Cynghorydd S. Campbell, nad yw'n aelod o'r pwyllgor ond sydd â chaniatâd i siarad, sylw ynghylch sut y byddai'r gwasanaeth tanysgrifio ar gyfer y casgliadau gwastraff gwyrdd yn gweithio oherwydd y gallai fod yn broses sy'n cymryd amser. Holodd hefyd ynghylch staffio ac ailddosbarthu staff asiantaeth. Ei phwynt olaf oedd bod pryder gwirioneddol ymhlith trigolion ynghylch tipio anghyfreithlon, a holodd p'un a fyddai'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi yn dal i fod yn rhydd i'w defnyddio.

Holodd y Cynghorydd M. Cowpe, nad yw'n aelod o'r pwyllgor ond sydd â chaniatâd i siarad, ynghylch y gost gynyddol ar gyfer cadis hylendid, y mae eu pris wedi codi 400%. Dywedodd y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn defnyddio'r cadis hylendid ar gyfer gwastraff glanweithiol, anymataliaeth a chewynnau, ac oherwydd yr arogleuon budr, ni fyddai'r rhan fwyaf o bobl eisiau cadw'r cynwysyddion yn eu cartrefi. Dywedodd y Cynghorydd Cowpe efallai y bydd angen tri chadi arnynt am dair wythnos ac roedd hynny'n gost o £30. Gan y byddai llawer o'r teuluoedd ymhlith y rhai mwyaf agored i niwed, dywedodd yr hoffai i'r Cyngor ailystyried y tâl hwnnw oherwydd ei fod yn ormodol ac y byddai'n effeithio ar y teuluoedd mwyaf agored i niwed. O ran y bagiau porffor, roedd yn bwysig bod yn glir nad oedd y rhain ar gyfer casglu gwastraff hylendid yn unig ond y gellid eu defnyddio fel bag du ychwanegol. Roedd y bag porffor yn lwfans ychwanegol, ac yn dangos lle'r oedd angen cymorth ychwanegol ar deuluoedd. Anogodd y Cynghorydd Cowpe i gamau gael eu cymryd yn erbyn y rhai oedd yn camddefnyddio'r system ac nad oedd yn ailgylchu o gwbl.

Mewn ymateb i sylwadau a godwyd gan y Cynghorydd Campbell a'r Cynghorydd Cowpe, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fel a ganlyn:

- Byddai'r Cyngor yn defnyddio meddalwedd cynllunio llwybrau, a fyddai'n cyfrifo'r llwybrau casglu cyflymaf.
- Nid oedd unrhyw oblygiadau i'r gweithwyr oherwydd y newidiadau i'r gwasanaeth.
- Roedd tipio anghyfreithlon wastad wedi bodoli ac y byddai'n parhau'n her barhaus. Y prif ddull y gallai'r Cyngor ei gymryd fyddai atgoffa'r cyhoedd bod tipio anghyfreithlon yn drosedd.
- Byddai'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi yn parhau i fod yn rhad ac am ddim i'w defnyddio gan fod dyletswydd statudol ar gynghorau i ddarparu gwasanaeth am ddim.
- Roedd elfen o ddewis personol o ran sut yr oedd gwastraff yn cael ei storio, ond roedd nifer o atebion ar gael, gan gynnwys blychau du yn lle bagiau porffor.
- Roedd cost cynwysyddion o £10 yn cael ei chyflwyno er mwyn adennill costau.
- O ran camdefnyddio'r system, roedd gan y Cyngor bwerau statudol y gallai eu defnyddio, a oedd yn cynnwys cyflwyno hysbysiad drwy adran 46 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd. Gallai hynny hefyd arwain at hysbysiad cosb benodedig am droseddwy'r mynych.

Dywedodd y Cynghorydd M. Hooper fod risgiau sylweddol i gyfraddau ailgylchu'r Cyngor, yn enwedig oherwydd y newidiadau i'r broses o gasglu gwastraff gwyrdd, ac roedd yn ansicr sut y byddai cyfyngiad o dri bag du yn gwella ailgylchu. Yn olaf, dywedodd y Cynghorydd Hooper ei fod yn teimlo mai ychydig iawn oedd yn strategaeth y Cyngor ynghylch lleihau defnydd. Mewn ymateb i hyn, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod llai o ailgylchu yn her i bob cyngor yng Nghymru. Gyda'r newidiadau arfaethedig presennol, byddai'r Cyngor yn cael ei gefnogi gan ymgynghorwyr Llywodraeth Cymru a thrwy Raglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP). Byddai'r Cyngor felly yn dilyn canllawiau cenedlaethol, a fyddai'n helpu i leihau risgiau. Mewn perthynas â chasgliadau bagiau du, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod pob cyngor arall a oedd wedi cyflwyno casgliad tair wythnos wedi cyflwyno tystiolaeth o berfformiad ailgylchu gwell. Ffactorau pwysig yn strategaeth y Cyngor oedd y rhaglenni addysgol a'r gefnogaeth y byddai'r Cyngor yn ei rhoi i'r deiliaid tai hynny nad ydynt efallai'n deall yn iawn ble i roi deunydd ailgylchadwy / gwastraff. Roedd hyn hefyd yn bwysig gan fod problemau gyda bagiau du yn cael eu llygru gan bethau fel bwyd, a oedd yn denu fermin ac yn lleihau cyfradd ailgylchu'r Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd S. Wiliam ei fod o blaid llai o gasgliadau bagiau du, a dywedodd nad oedd yn credu y byddai tipio anghyfreithlon yn broblem fawr. Fodd bynnag, roedd ganddo'r union bryderon ag a amlygwyd gan y Cynghorydd Hooper, ac yn arbennig ynghylch sut y byddai'r newidiadau'n cael eu rheoli, a sut y byddai pobl yn cael eu hannog i danysgrifio i'r gwasanaeth gwastraff gwyrdd newydd. Mewn ymateb i hyn, dywedodd y Rheolwr Gweithredol ei fod yn her gan fod maint y gwastraff a gesglir yn amrywio ar draws Bro Morgannwg. Dyna pam eu bod nhw wedi cyfyngu ar nifer y senarios yn ymwneud â chasgliadau, gyda'r Cyngor yn cynnig opsiwn i bedwar bag gael eu casglu, a allai godi i wyth, ond

No.

roedd opsiwn hefyd o gasgliad untro ar adegau pan oedd mwy nag wyth bag yn cael eu cynhyrchu. Er mwyn bod yn llwyddiannus, roedd y Cyngor wedi cydnabod bod cyfathrebu'n bwysig, a fyddai'n cynnwys defnyddio tudalennau gwe pwrpasol ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â chost gwasanaeth cymysg a gwerth gwastraff ailgylchadwy cymysg, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod y Cyngor yn talu cwmni yn Lloegr i brosesu deunydd ailgylchadwy'r Cyngor. Roedd y swm a dderbyniwyd yn dibynnu ar bwysau'r deunydd i'w ailgylchu. Effeithiwyd yn fawr ar hynny gan halogiad, a fyddai'n golygu bod y Cyngor yn talu cost prosesu uwch ac felly'n lleihau'r swm a delir i'r Cyngor. Yn ogystal â manteision ariannol gwastraff ailgylchadwy cymysg, roedd manteision amgylcheddol hefyd. Byddai pwysau yn y dyfodol oherwydd hyn yn lleihau pan fyddai'r Cyngor yn agor ei gyfleuster ailgylchu newydd yn Atlantic Trading Estate yn y Barri.

Dywedodd y Cynghorydd J. Aviet yr hoffai i'r Cyngor ymgysylltu a chyfathrebu mwy â'r cyhoedd, ac roedd rôl hefyd i gynghorwyr wrth helpu'r Cyngor i ledaenu negeseuon.

Cododd y Cynghorydd A. Ernest y pwyntiau a ganlyn:

- Pryder ynglŷn â'r risg o leihad ym maint y deunydd gwastraff ailgylchadwy, a fyddai'n arwain at ostyngiad ariannol.
- Ystyriaeth am fflatiau a rhandai.
- Effaith weledol biniau ag olwynion ar ardaloedd cadwraeth.
- Costau ychwanegol i ddeiliaid tai, yn ychwanegol i swm y dreth gyngor a delir.
- I'r pwyllgor gynnal ymweliadau safle â'r cyfleusterau gwastraff ac ailgylchu.

Mewn ymateb i hyn, dywedodd y Rheolwr Gweithredol ei bod yn briodol i'r Cyngor amlygu risgiau, yn enwedig mewn perthynas â faint o wastraff gwyrdd a gesglir, ond y dylai maint y tunelli a gesglir yn y safleoedd ailgylchu a hefyd y swm tebygol a gesglir o'r gwasanaeth tanysgrifio newydd fod yn ddigon i gyflawni'r isafswm o dunelledd a osodwyd. Fodd bynnag, roedd y risg yn rhywbeth yr oedd y Cyngor yn ymwybodol iawn ohono, a dyna pam roedd ymdrech i leihau'r halogiad mewn bagiau du. O ran fflatiau, cynghorwyd y byddai'r rhain yn cael eu rheoli'n wahanol gan y byddai angen trafodaethau gyda phob cwmni rheoli unigol. O ran costau ychwanegol, roedd yn bwysig cydnabod nad oedd gwastraff gwyrdd yn wasanaeth statudol a hefyd bod y Cyngor yn wynebu pwysau ariannol digynsail. Cytunwyd i edrych ar ddyddiadau i'r pwyllgor ymweld â'r cyfleusterau newydd.

Gyda chaniatâd i siarad, diolchodd y Cynghorydd M. R. Wilson (yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu) i'r Rheolwr Gweithredol a holl swyddogion a staff y Gwasanaeth Gwastraff. O ran gwastraff gwyrdd, dywedodd ei bod yn bwysig cydnabod nad oedd 40% o boblogaeth y Fro yn defnyddio'r gwasanaeth, felly pam dylai'r rheini wneud cymorthdaliadau i'r gwasanaeth ar gyfer y 60% sy'n weddill. Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at yr heriau ariannol sy'n wynebu'r gwasanaeth, a materion eraill megis denu llafur addas i rai swyddi. Felly, roedd angen ariannu diffyg yn y gyllideb yn ogystal â dod o hyd i ffyrdd o annog pobl i ailgylchu mwy. Un o'r ffactorau pwysig wrth symud i gasgliad bagiau

No.

du bob tair wythnos oedd i bobl feddwl mwy am y gwastraff y maent yn ei roi allan, yn enwedig o ran bwyd.

Adleisiodd y Cadeirydd, y Cynghorydd S. Perkes, y diolchiadau i'r staff, a holodd a ellid darparu adroddiad monitro i'r Pwyllgor Craffu. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol y gellid trefnu diweddariad ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Craffu ym mis Hydref. Byddai hyn yn cael ei ychwanegu at raglen waith y pwyllgor ar gyfer 2023/24. Ar y cyfan, cytunodd y pwyllgor i dderbyn yr argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Yn dilyn hynny, roedd

ARGYMHELLWYD – Derbyn penderfyniadau'r Cabinet a wnaed ar 19 Ionawr, 2023 mewn perthynas â'r Newidiadau i'r Gwasanaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff 2023/24.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a trafodaethau yn y cyfarfod.

721 STRATEGAETH AILGYLCHU A RHEOLI GWASTRAFF (2022-2032)
(CYF) –

Cafodd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 19 Ionawr 2023 ei gyflwyno gan y Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Cymdogaeth.

Amlinellwyd bod y Cyngor wedi mabwysiadu 'Glasbrint Casgliadau' Llywodraeth Cymru, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i ailgylchu domestig gael ei wahanu wrth baratoi ar gyfer casglu o garreg y drws ac a oedd wedi cyrraedd cam uwch o ran cyflwyno'r gwasanaeth hwnnw ledled Bro Morgannwg.

Roedd y 'Glasbrint Casgliadau', ynghyd â mesurau eraill i wella gwasanaeth ailgylchu'r Cyngor er mwyn sicrhau cydymffurfedd â chanllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth yn ymwneud â gwastraff, wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus yn ardaleodd gwledig y Fro a'r Barri. Byddai'r cyflwyniad i Benarth a'r ardaloedd cyfagos yn digwydd ar 17 Ebrill 2023 ar ôl i'r Cyfleuster Adfer Adnoddau fod yn gwbl weithredol.

Roedd y Cabinet ar 19 Ionawr wedi cymeradwyo'r 'Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff' newydd, deng mlynedd o hyd, ar ffurf ddrafft ac roedd hon yn ffurfioli'r ddarpariaeth gwasanaeth, ynghyd â mesurau eraill, i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei uchelgeisiau amgylcheddol a thargedau ailgylchu statudol. Roedd hwn yn gam gweithredu allweddol a gyfrannodd at raglen ddatgarboneiddio'r Cyngor, Prosiect Sero.

Adroddwyd bod y strategaeth wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos, a lluniwyd cynllun gweithredu i reolwyr i integreiddio'r sylwadau hynny i'r strategaeth.

No.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r bwriad i wella'r gwasanaeth ailgylchu ar garreg y drws presennol, gan ychwanegu eitemau trydanol bach fel tegelli, peiriannau sychu gwallt a batris. Roedd hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am seilwaith gwastraff, sef adeiladu'r Cyfleuster Adfer Adnoddau, y siop ailddefnyddio, parcio'r fflyd yn y Barri, a'r Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartrefi newydd yn Llandŵ.

Mewn perthynas â'r safle yn Llandŵ, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod cynnig wedi cael ei wneud i adleoli'r cyfleuster ailgylchu gwastraff ar safle newydd. Fodd bynnag, bu rhai heriau wrth gyflawni'r prosiect hwnnw ar safle addas a oedd yn bodloni gofynion trwyddedau a rheoliadau amgylcheddol.

Roedd datblygu safle a nodwyd yn flaenorol wedi methu, felly roedd y Cyngor wedi mynd yn ôl i gam un. Dros yr ychydig wythnosau diwethaf, roedd datrysiad newydd wedi dod i'r golwg, gyda thir ar gael ar gyfer y safle gwastraff, ac roedd y Cyngor yn edrych ar hyfywedd y safle hwnnw a rhai cysyniadau dylunio amlinellol dechreuol.

Dywedodd y Cynghorydd C. Champion fod yr adroddiad yn nodi y byddai'r safle gwastraff yn y Bont-faen yn cael ei gadw ond y byddai'n parhau i gael ei adolygu. Nododd y Rheolwr Gweithredol fod astudiaeth wedi'i chynnal a oedd yn dangos ei bod yn fwy ymarferol cadw'r safle yn hytrach na rhedeg cerbydau gwastraff yn ôl ac ymlaen i'r Barri. Teimlwyd bod angen cadw'r safle dan adolygiad i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn hyfyw.

Gyda chaniatâd i siarad, dywedodd y Cynghorydd M. R. Wilson (yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu) mai un o ffactorau pwysicaf y strategaeth newydd oedd y cyfraniad i Brosiect Sero'r Cyngor – er enghraifft, roedd yna arbediad posib o dros 23,000 litr o danwydd. Roedd y strategaeth yn cynrychioli'r gwaith da yr oedd y Cyngor yn ei wneud i liniaru a lleihau'r newid yn yr hinsawdd.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, roedd y pwyllgor

ARGYMHELLWYD – Derbyn y Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff (2022-2032).

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a trafodaethau yn y cyfarfod.

722 CYLLIDEB 2023/24 AR GYFER YMGYNGHORI A DIWEDDARIAD PELLACH O'R CATC (CYF) –

Cafodd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 19 Ionawr 2023 ei gyflwyno gan y Cyfrifydd – Rheoli Adnoddau ar y cyd â'r Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 fel rhan o'r broses ymgynghori ar y meysydd allweddol hyn. Eglurwyd bod y setliad llywodraeth leol ar gyfer 2023/24 wedi bod yn fwy ffafriol na'r disgwyl. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyfeirio £227 miliwn o'i chyllid o £644 miliwn i lywodraeth leol, a gwnaeth Cyllid Allanol Cyfun (AEF) Bro Morgannwg gynyddu 8.9% (£16.6

No.

miliwn). Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, roedd yn dal i fod bwlch ariannu y byddai angen i'r Cyngor fynd i'r afael ag ef.

Roedd y Cyngor wedi gweithio ar lefel y tîm uwch-arweinwyr i adolygu pwysau costau i lawr ar draws cyfarwyddiaethau ac i gyflwyno'r pwysau costau neu gostau cynyddol yr oeddent yn eu rhagweld ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Roedd pwysau costau o'r fath yn cynnwys pwysau ar gyflogau ac ynni, yn ogystal â phwysau costau mwy penodol yn ymwneud â'r pwyllgor hwn, megis pwysau chwyddiant a'r cynnydd blynyddol mewn costau contractau ar gyfer y contractau gwaredu/ailgylchu gwastraff mawr a phwysau chwyddiant ar gludiant i'r ysgol.

Fel rhan o Strategaeth y Gyllideb, roedd y Cyngor wedi gweithio i nodi nifer o gynnigion arbedion dros ddeg o 'themâu'. Roedd cynnigion arbedion sy'n benodol i gylch gwaith y pwyllgor hwn yn cynnwys meysydd megis cynnydd mewn ffioedd a thaliadau, adolygiad o daliadau a darpariaeth meysydd parcio, gostyngiad i'r amserlen torri gwair flynyddol, a hefyd newidiadau i'r casgliad gwastraff ar gyfer bagiau du i dair wythnos ynghyd â thâl tanysgrifio ar gyfer bagiau gwyrdd.

Roedd cronfeydd wrth gefn y Cyngor hefyd wedi'u hadolygu i alinio ag amcanion a risgiau cyffredinol y Cyngor. Roedd y cronfeydd wrth gefn hefyd wedi'u symleiddio, a fyddai'n helpu o safbwynt eu monitro ac adrodd arnynt.

Amlinellwyd yr amserlen / camau nesaf ar gyfer ymgynghori ar gyllideb 2023/24 ac ar gyfer diweddariad pellach o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig hefyd, o gyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus a chan y Pwyllgor Craffu ym mis Ionawr/Chwefror hyd at y cynnigion terfynol i fynd gerbron y Cyngor ar 6 Mawrth 2023.

Gofynnodd y Cynghorydd A. Ernest am y ddarpariaeth ar gyfer atgyweirio'r priffyrdd, ac yn fwy penodol am y swm a neilltuwyd i atgyweirio palmentydd mewn ardaloedd trefol, a oedd yn hynod bwysig i bobl ag anabledd neu'r rheini â phlant. Roedd ail bwynt y Cynghorydd Ernest yn ymwneud â chynnal a chadw parciau, a dywedodd y dylai'r Cyngor fod yn edrych ar ddarparu adnoddau ychwanegol i'r Gwasanaethau Cymdogaeth ac yn enwedig i'r priffyrdd. Mewn ymateb i hyn, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth fod y gyllideb bresennol a ddyrannwyd ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw priffyrdd yn hael, ond bu'n flwyddyn heriol o ran atgyweirio tyllau yn y ffyrdd, gyda'r swm a wariwyd yn fwy na'r gyllideb a ddyrannwyd. O ran y ddarpariaeth am y flwyddyn nesaf, roedd y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer ail-wynebu'r priffyrdd yn sylweddol is, oherwydd yr heriau yr oedd y Cyngor yn eu hwynebu. Roedd cyllideb o tua £1 miliwn wedi'i chlustnodi, felly'r cynllun oedd canolbwyntio ar chwech neu saith o brif ffyrdd. Roedd y flwyddyn nesaf felly yn mynd i fod yn hynod heriol. Byddai adroddiad yn rhoi mwy o fanylion am strategaeth y Cyngor yn cael ei roi i'r Cabinet maes o law. O ran parciau a mannau agored, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth, gan fod pwysau ar y Cyngor am gyllid yn y maes hwnnw, bod llawer o ffyrdd newydd o weithio a mentrau newydd yn cael eu defnyddio, megis defnyddio grwpiau gwirfoddol. Canmolodd Adran Cynllunio'r Cyngor am allu cael arian adran 106, a oedd wedi golygu y gellid buddsoddi arian ychwanegol.

Gofynnodd y Cynghorydd V. Driscoll ynghylch y cynnydd yng nghronfeydd wrth gefn y Cyngor dros y deng mlynedd diwethaf. Mewn ymateb i hyn, cyfeiriodd y

No.

cyfrifydd at swm yr arian grant a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod COVID-19 a dros y ddwy i dair blynedd diwethaf. Roedd hyn wedi galluogi'r Cyngor i wrthbwysu costau untro a rhoi arian mewn cronfeydd wrth gefn ar gyfer meysydd lle byddai'r Cyngor yn disgwyl defnyddio arian o'i gyllidebau ei hun. Roedd hefyd yn angenrheidiol i'r Cyngor gyllidebu ar gyfer y senarios gwaethaf ac ystyried meysydd lle byddai'n rhaid iddo ariannu pwysau costau.

Dywedodd y Cynghorydd L. Burnett (yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), gyda chaniatâd i siarad, fod y Cyngor wedi buddsoddi'n helaeth mewn atgyweirio priffyrdd a phalmentydd. Y llynedd, roedd arian grant ychwanegol wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru, ond oherwydd pwysau costau, mae'n debygol na fyddai Llywodraeth Cymru yn gallu darparu'r un lefel o gyllid. Roedd pwysau chwyddiant hefyd yn cael effaith ar y Cyngor ac roedd pwysau ar y Gwasanaethau Cymdogaeth oherwydd yr angen i flaenoriaethu gofal cymdeithasol ac addysg. Cyfeiriodd yr Arweinydd at y cynnydd yn y dreth gyngor a phwysleisiodd y byddai cynnydd o 1% yn dod â £850,000 ychwanegol i mewn, a dywedodd pe bai meysydd eraill y teimlai'r aelodau bod angen eu blaenoriaethu, yna dylid ofyn y cwestiwn a ddylai'r dreth gyngor gynyddu fwy na'r 4.9% a gynigiwyd.

Gofynnodd y Cadeirydd, y Cynghorydd S. Perkes, am y cyfleoedd i godi incwm ychwanegol. Mewn ymateb, cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth at gyfleoedd i glybiau chwaraeon lleol redeg eu cyfleusterau eu hunain. Roedd cyfleoedd posibl hefyd o ran gorfodi a chasglu gwastraff masnachol.

Dywedodd y Cynghorydd M. R. Wilson (yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu), gyda chaniatâd i siarad, yr hoffai gael mwy o adnoddau ond bod cyllideb gyfyngedig. Cytunodd â'r Cynghorydd Ernest o ran palmentydd a nododd fod arian wedi'i ddyrannu i'r maes hwnnw, ond bod angen bod yn amyneddgar gan fod yn rhaid i'r Cyngor asesu'n briodol y defnydd o ffyrdd a phalmentydd cyn gwario arian. O ran y cronfeydd wrth gefn, dywedodd ei bod yn bwysig cofio mai dim ond unwaith y gellid defnyddio cronfeydd wrth gefn, ac oherwydd tywydd y gaeaf, roedd y Cyngor wedi wynebu heriau o ran atgyweirio ffyrdd.

Yn dilyn hynny, gwnaeth y pwyllgor

ARGYMHELLWYD – Nodi cyfeirnod y Cabinet a'r adroddiad Cabinet atodedig mewn perthynas â Chyllideb 2023/24 a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a trafodaethau yn y cyfarfod.

723 CYNGOR BRO MORGANNWG – FFIOEDD A THALIADAU
ARFAETHEDIG AR GYFER 2023/2024 (CYF) –

Cafodd cyfeiriad gan y Cabinet ar 19 Ionawr 2023 ei gyflwyno gan y Cyfrifydd – Rheoli Adnoddau.

Dyweddodd y cyfrifydd ei fod yn adroddiad ffioedd a thaliadau cyfunol a oedd yn cynnwys ffioedd ar draws Gwasanaethau Cymdogaeth, Adnoddau, Lle, Dysgu a Sgiliau, a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Roedd y Cabinet wedi cymeradwyo'r argymhellion fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, gyda'r rhan fwyaf o'r ffioedd a thaliadau arfaethedig yn adlewyrchu cynnydd o rhwng 5% ac 11%. Mewn rhai achosion, roedd y ffioedd wedi'u talgrynnu i'r 5c neu 10c agosaf, ac roedd rhai ffioedd a thaliadau eraill wedi cynyddu'n uwch na'r ganran, tra oedd rhai wedi aros yr un fath neu wedi gostwng i adlewyrchu'r defnydd o wasanaethau a chostau cyflawni. Amlinellwyd y rhesymeg dros wneud hynny yng nghorff yr adroddiad.

Cynigiwyd y byddai'r rhan fwyaf o'r taliadau ar gyfer y Gwasanaethau Cymdogaeth yn cynyddu yn unol â chwyddiant (neu ychydig yn fwy, i adlewyrchu'r nifer sy'n defnyddio'r gwasanaethau a chostau cyflawni). Roedd nifer fach o'r ffioedd a'r taliadau wedi aros yr un fath gan eu bod yn flaendaliadau a dalwyd gan y cwsmer a gafodd eu had-dalu yn ddiweddarach:

- Gweithgareddau chwaraeon – yn bennaf roedd cynnig i'w cynyddu rhwng 5% a 5.5%, a oedd yn llai na chyfradd chwyddiant, gyda'r nod o hybu iechyd a llesiant a chadw'r gweithgareddau hyn yn fforddiadwy. Bu'n rhaid i rai taliadau ym Mharc Jenner gynyddu'n fwy oherwydd y cynnydd mewn costau trydan ar y safle hwn.
- Gwastraff swmpus – cynigiwyd codi ffioedd gwastraff swmpus 25% oherwydd costau cynyddol darparu'r gwasanaeth hwn a gweithio tuag at adennill costau llawn. Er nad oedd hyn yn talu costau darparu'r gwasanaethau hyn yn llawn, argymhellwyd y cynnydd i helpu i leihau'r risg o leihad yn y galw, gan arwain at dipio eitemau o'r fath yn anghyfreithlon, a fyddai wedyn yn fwy costus i'r Cyngor. Am y rhesymau hyn, ni chynigiwyd cynyddu cost casglu eitemau swmpus ychwanegol (yn fwy na thri, gydag uchafswm o bum eitem).
- Gwastraff masnachol – oherwydd natur gystadleuol y gwasanaeth, ond ar yr un pryd costau cynyddol cyflawni'r gwasanaeth hwn, y cynnydd arfaethedig mewn taliadau gwastraff masnachol ar gyfer 2023/24 oedd 11%.
- Gwastraff domestig – cynigiwyd codi tâl gweinyddol am roi trwydded i fan a/neu dreiar ymweld â Chanolfan Ailgyrchu Gwastraff Cartrefi 11% (i'r rhif cyfan agosaf) oherwydd bod costau darparu'r gwasanaeth wedi cynyddu ymhellach. Cynigiwyd codi pris prynu cadis hylendid 400% o £2 i £10.
- Cabanau glan môr – bwriedir cynyddu'r ffioedd a thaliadau llogi dyddiol a thocynnau blynyddol cabanau glan môr 11%, sef y ffigur a argymhellir, ar gyfer 2023/24. Cynigiwyd hefyd y byddai taliadau ar gyfer priodasau a

phartneriaethau sifil mewn gwahanol leoliadau arfordirol yn cynyddu yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr o 11%.

- Priffyrdd – bu rhywfaint o newid i'r strategaethau prasio yn dilyn meincnodi ac adolygu adennill costau llawn. Roedd yr adroddiad yn manylu ar rai o'r achosion mwyaf o gynnydd mewn ffioedd.
- Ffilmio – cynyddodd y pris arweiniol 11%, ond byddai'r pris a dalwyd yn agored i drafodaeth yn dibynnu ar y gofynion.
- Argymhellwyd bod taliadau meysydd parcio canol trefi (gan gynnwys cyfnod rhydd o ddwy awr) yn aros yr un fath er mwyn sicrhau nad oedd trigolion yn cael eu hannog i beidio â defnyddio meysydd parcio canol trefi.
- Nid oedd meysydd parcio arfordirol wedi gweld cynnydd mewn taliadau ers 2018/19. Oherwydd poblogrwydd cynyddol ein cyrchfannau arfordirol a'r costau cysylltiedig o'u cynnal a'u cadw, cynigiwyd codi'r tâl am barcio am hyd at un awr o £1 i £1.10 (10%) a'r tâl diwrnod cyfan (dros un awr) o £6 i £6.50 (8%). Roedd taliadau am barcio ar ôl 4pm mewn lleoliadau arfordirol i fod i newid o £1 i £1.10 am hyd at un awr a £3 i £3.25 am y tâl dros un awr.
- Byddai adolygiad pellach o daliadau parcio ceir ar draws ardal y Cyngor yn cael ei gynnal fel rhan o adolygiad maes parcio a oedd yn cael ei gynnal i gefnogi cynigion cyllideb 2023/24, ac ochr yn ochr â gweithredu system Adnabod Rhifau Cerbydau yn Awtomatig (ANPR) ym meysydd parcio ardal arfordirol y Cyngor. Rhagwelwyd yr adolygiad yn ystod yr wythnosau nesaf, ac y byddai'n rhoi ystyriaeth briodol i daliadau parcio haenog.
- Ar gyfer cwsmeriaid sy'n defnyddio meysydd parcio'r arfordir yn rheolaidd, roedd tocynnau tymhorol ar gael o hyd a chynigiwyd codi'r tâl 11% i gyfrannu at gostau cynyddol cynnal a chadw cyrchfannau arfordirol. Felly cost trwydded am 12 mis fyddai £55.50 yn 2023/24.
- Mannau masnachu awyr agored – trwyddedau arddull caffi ac ardal fasnachu allanol. Cynnydd o rhwng 66% a 100%. Cynigiwyd y codiadau a nodir uchod i helpu i gynhyrchu incwm i dalu costau darparu'r gwasanaethau hyn ac i gyfrannu unrhyw incwm ychwanegol posibl tuag at wasanaethau eraill lle na ellid cynyddu ffioedd a thaliadau i adennill costau llawn. Roedd y cynnydd yn sylweddol uwch na'r rhan fwyaf o'r ffioedd a thaliadau arfaethedig yn yr adroddiad hwn oherwydd cynnydd yn y galw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y cynnydd wedi'i lywio gan ymarfer yn adolygu'r ffioedd a thaliadau a godwyd gan awdurdodau lleol eraill o amgylch Cyngor Bro Morgannwg, a oedd o'r farn y byddai'r ffi arfaethedig yn dal yn gystadleuol.
- Cludiant – oherwydd costau cynyddol darparu cludiant i'r ysgol, cynigiwyd codi'r ffi am docyn teithio blynyddol ar wasanaeth bws ysgol prif ffrwd wedi'i gontractio yn unol â chwyddiant (11%) a'i dalgrynnu i fyny i'r bunt agosaf; byddai hyn hefyd yn berthnasol i docynnau bws newydd.
- Mynwent Porthceri – prisiau arfaethedig drwy Gyngor Tref y Barri. Yn bennaf, cynnydd o 5% ond roedd rhai wedi aros yr un fath.

Mewn perthynas â ffioedd a thaliadau'r Gyfarwyddiaeth Lle, dywedwyd y byddai'r cynigion yn galluogi'r Parciau Gwledig i gynllunio ar gyfer rheoli'r safleoedd yn y dyfodol mewn modd cynaliadwy ar adegau o lai o gyllid. Roedd targedau arbed ar gyfer y Gwasanaeth Cefn Gwlad yn cynnwys cynhyrchu incwm ychwanegol ac roedd y cynigion hyn yn ceisio codi incwm gan ddefnyddwyr gwasanaethau yr

No.

oedd angen adnoddau i'w cynnal a/neu i'w cyflenwi, ond ar yr un pryd yn cynnal gwasanaethau cystadleuol hyfyw a denu ymwelwyr a thwristiaid fel y bo'n briodol.

O ran meysydd parcio cefn gwlad, cynigiwyd cyflwyno tâl o £1 am hyd at awr i barcio ceir. Yn flaenorol, y tâl oedd £1 am hyd at ddwy awr. Cynigiwyd y byddai'r tâl am hyd at ddwy awr yn £2 a'r tâl am hyd at bedair awr yn cynyddu o £2 i £4. Cynigiwyd cynyddu'r tâl drwy'r dydd o £4 i £5. Byddai'r cynnydd mewn prisiau yn cyfrannu at y cynnydd parhaus yng nghostau cynnal a chadw'r Parciau Cefn Gwlad.

Croesawodd y cadeirydd Mr J. Osbourne, aelod o'r cyhoedd, sydd wedi cofrestru i siarad ar yr eitem. Dywedwyd wrth Mr Osbourne y byddai'n cael tri munud o amser i siarad.

Dywedodd Mr Osbourne fod ei sylwadau yn ymwneud â thrwyddedau masnachu ar gyfer caffis awyr agored a masnachwyr stryd. Roedd rhai o'r codiadau ffioedd arfaethedig rhwng 66% a 100%, ac nid ymgynghorwyd â busnesau o gwbl ymlaen llaw. Dywedodd Mr Osbourne fod y ffioedd ar gyfer byrddau a chadeiriau y tu allan yn berthnasol i balmentydd stryd ac nid y rhai ar y promenâd nac unrhyw leoedd agored cyhoeddus. Roedd yn annheg felly, ac felly gofynnodd am adolygiad o'r ffioedd gyda'r un system ar waith i bob busnes. Ychwanegodd fod costau i fusnesau yn cynyddu'n ddramatig, megis trydan, felly roedd llawer yn cael pethau'n anodd fel y mae pawb yn gwybod. Roedd hynny'n golygu bod gan y fasnach bryderon am y cynnydd yn y ffioedd, a arweiniodd er enghraifft at gost ychwanegol o £100 dim ond am osod arwydd ar balmart. Cyfeiriodd at ffioedd yn cael eu cynyddu at ddibenion adennill costau, a dywedodd y byddai'n well dileu systemau ac felly unrhyw oblygiadau cost.

Dywedodd Mr Osbourne, wrth siarad ar ran sawl masnachwr ar Ynys y Barri, y gallai ddweud nad oeddent yn hapus gyda'r ffioedd uwch, felly gofynnodd i'r mater gael ei ddwyn yn ôl i'r Cabinet i'w ailystyried.

Wrth ofyn am bwyntiau o eglurhad, dywedodd Mr Osbourne fel a ganlyn:

- Mai ei ddealltwriaeth ef oedd nad oedd yn rhaid i fusnesau ar y promenâd dalu'r ffioedd am osod byrddau a chadeiriau.
- Yn dilyn y cynnydd, byddai'r swm y byddai'n rhaid iddo ei dalu yn debygol o ddyblu.

Dywedodd y Cynghorydd L. Burnett (yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), nad oedd yn aelod o'r pwyllgor ond a wahoddwyd i wneud sylwadau, mai'r ardal y cyfeiriwyd ati ar gyfer busnesau ar y promenâd oedd yr ardal yr oedd ganddynt brydles ar ei chyfer. Pe bai unrhyw fusnes yn gosod byrddau a chadeiriau allan ar y briffordd gyhoeddus, boed hynny'n balmentydd neu'n ffyrdd, yna byddent yn talu.

Dywedodd y Cynghorydd M. Hooper fod Cymdeithas Masnachwyr y Stryd Fawr wedi lleisio'r un pryderon ag yr oedd gan Mr Osbourne. Roedd y gymdeithas hon hefyd wedi mynegi pryder ynghylch diffyg ymgysylltu ac ymgynghori ynghylch y cynnydd mewn ffioedd. Cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper hefyd at bryderon a

No.

godwyd mewn perthynas â chynnydd o 100% mewn cadis hylendid, yn enwedig pan gafodd ei ystyried yng nghyd-destun tlodi (49% o rieni sengl yn byw mewn tlodi). Roedd hynny'n golygu bod y Cyngor yn trosglwyddo cost y cadis hynny i'r rhai mwyaf agored i niwed a gofynnodd i hynny gael ei adolygu. Ei bwynt olaf oedd bod diffyg gweledigaeth strategol, gan amlygu er enghraifft bod llogi craeniau yn cynyddu 600%, felly holodd sut y bu trefn ffioedd a thaliadau blaenorol y Cyngor mor anghywir.

Gwnaeth y Cyngorydd A. Ernest sylw ar nifer o ffioedd y teimlai fod angen eu hailystyried gan y Cabinet. Y rhain oedd:

- Y gost ar gyfer meinciau cysegru, a oedd yn sensitif i lawer o bobl, a oedd yn cynyddu o £1,065 i £1,200.
- Placiau bach.
- Trwyddedau tebyg i gaffi, a oedd ar gyfer busnes yn ei ward yn cynyddu o £150 i £250 ac a oedd yn fwy na'r 11% a gynigiwyd. Byddai cynnydd o'r fath felly yn cael effaith ar ganol trefi a gallai hyn arwain at fasnachwyr yn mynd allan o fusnes.
- Mae'n bosibl y bydd y tâl am docio'r cwch hamdden Waverley, a oedd ar ben y swm sylweddol oedd ei angen ar gyfer gwaith atgyweirio, yn golygu na fyddai hi byth docio ym Mhenarth eto.
- Costau ffilmio, pe bai'r rhain yn rhy uchel, yna byddai'n annog cynhyrchwyr ffilm i chwilio am leoliadau rhatach eraill.
- Roedd parcio mewn parciau gwledig yn cynyddu, ac roedd hyn yn annheg i drigolion Bro Morgannwg gan y byddent yn talu ddwywaith.

Argymhellodd y Cyngorydd C. Champion i'r Cabinet ailystyried y tâl am y cadid hylendid fel yr awgrymwyd yn flaenorol gan y Cyngorydd Hooper, a hefyd adolygu'r cynnydd mewn ffioedd i fasnachwyr sy'n gosod byrddau a chadeiriau allan. Cytunodd y Cyngorydd V. P. Driscoll y dylid adolygu ffioedd masnachwyr, gan nodi effaith y codiadau eraill a gynigir.

Mewn ymateb i hyn, a chyda chaniatâd i siarad, gwnaeth y Cyngorydd L. Burnett sylw am feysydd lle'r oedd angen i'r Cyngor adennill ei gostau ar adeg o her ariannol eithafol a gofynnodd sut y byddai gwasanaethau'n cael eu hariannu pe bai'n cael ei argymhell i ddileu neu leihau cymorthdaliadau penodol.

Ni chafodd yr argymhellion a wnaed gan y Cyngorydd Hooper a'r Cyngorydd Champion, ar ôl iddynt gael eu heilio'n briodol a bod yn destun pleidlais briodol, eu cymeradwyo gan y pwyllgor.

Yna cafwyd pwynt o drefn gan y Cyngorydd Driscoll ynghylch cynnwys Aelodau'r Cabinet mewn trafodaethau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu, ac ymatebodd y cadeirydd iddo drwy nodi ei bod yn anghytuno gan fod rhai dadleuon da wedi bod, a bod gan Aelodau'r Cabinet yr hawl i ateb cwestiynau ac i arwain ar eitemau.

Yn dilyn hynny, roedd

No.

ARGYMHELLWYD – Nodi cyfeirnod y Cabinet a'r adroddiad Cabinet atodedig mewn perthynas â Ffioedd a Thaliadau Arfaethedig Bro Morgannwg ar gyfer 2023/2024.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a trafodaethau yn y cyfarfod.

724 CYNIGION RHAGLEN GYFALAF DRAFFT 2023/24 I 2027/28 (CYF) –

Cafodd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 19 Ionawr 2023 ei gyflwyno gan y Cyfrifydd – Rheoli Adnoddau.

Nodwyd ar 14 Rhagfyr 2022 fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi setliad dros dro Cyllid Cyfalaf Cyffredinol (GCF) 2023/24 ar gyfer 2023/24. Y swm a ddyfarnwyd i'r Cyngor oedd £6.997 miliwn, sef £3.545 miliwn o grant a £3.452 miliwn o fenthycyca â chymorth.

Roedd hyn yn gynydd o £1.168 miliwn o Gyllid Cyfalaf Cyffredinol 2022/23 o £5.829 miliwn (£6.867 miliwn oedd Cyllid Cyfalaf Cyffredinol 2021/22). Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi dweud bod £20 miliwn o gyfalaf ledled Cymru bob blwyddyn yn cael ei ddarparu i alluogi awdurdodau lleol i ymateb i'r flaenoriaeth ar y cyd o ddatgarboneiddio. Roedd y Cyngor yn aros am ragor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â hynny i ddeall beth mae'n ei olygu i ni fel cyngor.

Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi cadarnhau y byddai'r Cyllid Cyfalaf Cyffredinol yn aros ar yr un lefel ar gyfer 2024/25. Ni roddwyd unrhyw ragamcanion pellach y tu hwnt i'r pwynt hwnnw.

Cyflwynodd y swyddog i'r pwyllgor y meysydd gwariant a ragwelwyd dros y rhaglen pum mlynedd, gan gynnwys y meysydd hynny o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor, h.y. £700,000 yn ychwanegol ar gyfer ail-wynebu. (Yn ogystal â £300,000 eisoes yn y rhaglen.) Daeth cyfanswm cyllid y Rhaglen Gyfalaf i ychydig dros £98 miliwn, a oedd yn cynnwys dros £74 miliwn mewn grantiau amrywiol, adran 106, cyllid y Cyfrif Refeniw Tai, ac ychydig dros £23 miliwn mewn benthyca. Darparwyd dadansoddiad hefyd o gynlluniau newydd 2023/24 Rhaglen Gyfalaf y Cyngor.

Cyfeiriwyd at yr amserlen a'r camau nesaf ar gyfer Cynigion Drafft y Rhaglen Gyfalaf 2023/24 i 2027/28, gan gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus a chraffu hyd at ddrafftio a chyflwyno'r cynigion terfynol i'r Cyngor Llawn ar 6 Mawrth 2023.

Roedd y Pwyllgor Craffu, yn dilyn ystyried cyfeiriad y Cabinet a'r adroddiad, wedyn

ARGYMHELLWYD – Nodi cynnwys Cynigion Drafft y Rhaglen Gyfalaf 2023/24 i 2027/28.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a trafodaethau yn y cyfarfod.

725 MONITRO REFENIW AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 30 TACHWEDD, 2022 (CAT) –

Diben yr adroddiad oedd hysbysu'r pwyllgor am y cynnydd mewn perthynas â gwariant refeniw ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Tachwedd 2022.

Byddai'r sefyllfa refeniw ar gyfer 2022/23 yn parhau i fod yn heriol i'r Cyngor, yn weithredol ac yn ariannol, oherwydd goblygiadau parhaus pandemig COVID-19 a'r argyfwng costau byw. Roedd pwysau a oedd yn dod i'r amlwg yn ystod 2022/23 yn ymwneud â thaliadau sefydlog ynni, y dyfarniad cyflog diweddar, chwyddiant cyffredinol, yn enwedig mewn meysydd fel cludiant i'r ysgol a chostau byw, a phwysau staffio. Roedd pwysau chwyddiant a galw yn cael eu profi ar draws gwasanaethau ac y byddai angen eu monitro'n ofalus yn ystod y flwyddyn ariannol.

Ar hyn o bryd, roedd sefyllfa gyffredinol gytbwys gyda'r pwysau ychwanegol yn cael eu diwallu o danwariant yn y polisi cyllideb a rhywfaint o dynnu i lawr o gronfeydd wrth gefn y gwasanaethau. Fodd bynnag, byddai angen lliniaru'r pwysau o ran cludiant i'r ysgol wrth i ddiwedd y flwyddyn agosáu.

Roedd targed effeithlonrwydd o £500,000 wedi ei osod ar gyfer y flwyddyn ac roedd gwasanaethau ar hyn o bryd yn gweithio tuag at gyflawni eu targedau. Roedd rhai materion yn parhau mewn perthynas â thargedau arbedion nas cyflawnwyd o flynyddoedd blaenorol. Roedd amrywiadau andwyol yn cael eu rhagweld ar gyfer rhai gwasanaethau eleni a byddai angen defnyddio cronfeydd wrth gefn i ddatrys y materion hyn yn y tymor byr.

Rhagwelwyd ar hyn o bryd y byddai gan y Gwasanaethau Cymdogaeth amrywiad anffafriol o £1.3 miliwn yn erbyn cyllideb 2022/23, oherwydd costau ychwanegol mewn perthynas â gyrwyr cerbydau nwyddau trwm, taliadau hamdden, a chost ychwanegol dyfarniad cyflog 2022/23. Byddai'r Gwasanaethau Adeiladu yn tynnu i lawr o'r cronfeydd wrth gefn i adlewyrchu'r dyfarniad cyflog heb ei gyllidebu. Roedd y gyllideb Lle yn amodol ar drosglwyddiad i adlewyrchu ad-drefnu.

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad, gwnaeth

ARGYMHELLWYD –

- (1) Nodi'r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2022/23 yr Awdurdod.
- (2) Y dylid nodi'r trefniadau ar gyfer gwrthbwysu'r gorwariant a ragwelir yn 2022/23, fel y nodir yn yr adroddiad.

No.

(3) Bod y Gyllideb Refeniw ddiwygiedig ar gyfer 2022/23, fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad, yn cael ei chymeradwyo.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad, hysbysu'r Pwyllgor am yr alldro refeniw a ragwelir ar gyfer 2022/23.

(2) Ymateb i bwysau chwyddiant tâl a phrisiau sy'n dod i'r amlwg yn 2022/23.

(3) Addasu'r Gyllideb Refeniw ddiwygiedig ar gyfer 2022/23 ar gyfer symudiadau rhwng Cyfarwyddiaethau.

726 MONITRO CYFALAF AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 30 TACHWEDD 2022 (CAT) -

Pwrpas yr adroddiad oedd hysbysu'r pwyllgor am y cynnydd ar Raglen Gyfalaf 2022/23 am y cyfnod 1 Ebrill i 30 Tachwedd 2022, o fewn eu cylch gorchwyl.

Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar gynnydd y Rhaglen Gyfalaf am y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Tachwedd 2022. Dangoswyd manylion fesul cynllun yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Roedd Atodiad 2 i'r adroddiad yn rhoi crynodeb o'r sefyllfa fesul cyfarwyddiaeth yn y Rhaglen Gyfalaf, o'r adeg pan gafodd ei chymeradwyo gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2022 i 30 Medi 2022, gan gynnwys unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt yn yr adroddiad.

Roedd yr adroddiad yn nodi newidiadau y gofynnwyd amdanynt i Raglen Gyfalaf 2022/23 a'r blynyddoedd i ddod. Roedd cynlluniau cyfalaf yn wynebu heriau sylweddol oherwydd cynnydd sylweddol mewn costau, a allai olygu bod eisiau ailwneud cynlluniau neu eu haildendro, a fyddai'n arwain at oedi i brosiectau. Roedd swyddogion prosiect hefyd yn nodi bod amseroedd arwain hir wrth gyflawni deunyddiau a bod prinder sgiliau mewn rhai meysydd.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r rhaglen gymeradwy gyfredol o £90.413 miliwn ond roedd yn bwysig nodi nad oedd hyn yn debygol o gael ei gyflawni a gofynnwyd am lithriad o £2.369 miliwn. Byddai cynlluniau'n parhau i gael eu monitro'n agos fel rhan o'r trefniadau monitro rheolaidd gyda rheolwyr prosiect a noddwyr. Byddai lithriad pellach yn cael ei adrodd mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Adroddwyd bod un awdurdod dirprwyedig wedi'i gymeradwyo a oedd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu i gynyddu'r gyllideb bresennol ar gyfer cynllun Cyfnewidfa Doc y Barri o £869,000 i £2.884 miliwn i'w ariannu gan grant a gafwyd gan Llywodraeth Cymru. Gofynnodd y Cyngorydd E. Penn y rheswm am y cynnydd. Mewn ateb i hyn, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth y bu cynnydd sylweddol mewn costau oherwydd rhywfaint o waith ychwanegol mewn perthynas â bioamrywiaeth ac ati. Yn ogystal, bu cynnydd bach hefyd yng nghost deunyddiau, ond yn gyffredinol roedd y cynllun yn dal i fod o fewn y gyllideb. Roedd tudalen we bwrpasol ar wefan y Cyngor a oedd yn rhoi diweddariad ar gynnydd.

No.

Yn dilyn hynny, gwnaeth y pwyllgor

ARGYMHELLWYD - Y dylid nodi'r newidiadau a'r cynnydd a wnaed ar gyflawni Rhaglen Gyfalaf 2022/23, o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a trafodaethau yn y cyfarfod.